

Cafodd Gwenllian drydydd mab, Owain ap Gruffydd, pan oedd yn 29 oed.

Pan roedd Gwenllian yn 39, ymosododd lluoedd y Normaniaid a'r Saeson ar y Deheubarth tra'r oedd Gruffydd i ffwrdd. Cododd Gwenllian fyddin o filoedd o ddynion a'u harwain i frwydr ger Castell Cydweli — yr unig achlysur rydym yn gwybod amdano i ferch arwain byddin Gymreig i frwydr.

Pan oedd Rhys yn 5 mlwydd oed, cafodd Gwenllian ei chweched mab, sef ei mab olaf, Sion ap Gruffydd.

Pan oedd Owain yn 2 oed, cafodd Gwenllian bedwerydd mab, Maredudd ap Gruffydd.

Yn dilyn carwriaeth fer, rhedodd y ddau i ffwrdd a mynd i fw yng nghastell Dinefwr. Aeth Gwenllian gyda Gruffydd ar ei ryfelgyrchoedd milwrol yn erbyn y Normaniaid, y Saeson a'r Ffleminiaid a oedd yn ceisio cymryd Deheubarth.

Teithiodd Gruffydd ap Rhys, Tywysog Deheubarth, i Wynedd i gwrdd â Gruffydd ap Cynan, a gwelodd Gwenllian, a oedd wedi tyfu'n ferch ifanc hardd 16 mlwydd oed.

Pan oedd yn 34 oed, ganwyd pumed mab i Gwenllian, sef Rhys ap Gruffydd, yng nghastell Dinefwr. Yn ddiweddarach, llwyddodd Rhys i ail-uno Teyrnas Deheubarth a'i rheoli o gastell Dinefwr.

Gydol ei hugeiniau, yr oedd Gwenllian a Gruffydd yn byw i ffwrdd o Ddinefwr, mewn cadarnleoedd mynyddig a choediog, yn cuddio oddi wrth y Normaniaid, ac yn cynnal cyrchoedd ar eu cadarnleoedd hwy yn Neheubarth.

Y flwyddyn wedi i Owain gael ei eni, er gwaethaf y ffaith iddo ddod i gytundeb heddwch â'r Brenin Harri I, ac y caniatwyd iddo reoli Cantref Mawr (rhan o Ddeheubarth), oherwydd pwysau gan y Normaniaid, gorfodwyd Gruffydd i ffoi i Iwerddon. Ni wyddys a aeth Gwenllian gydag ef.

Ganwyd ail fab Gwenllian, sef Maelgwyn, pan oedd Morgan yn 3 oed.

Rhoddodd Gwenllian enedigaeth i'w mab cyntaf, Morgan ap Gruffydd, pan oedd yn 19 oed. Ni wyddom ai dyma ei phlentyn cyntaf, gan na chofnodwyd dyddiad geni un o'i merched.

